ipcc
comisiwn cwynion
annibynnol
yr heddlu

Adeiladu ar brofiad

Cymryd stoc o system gwynion newydd yr heddlu ar ôl pedair blynedd o brofiad gweithredol

Adolygu'r system bresennol

Yn 2002, sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu system newydd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn yr heddlu. Creodd y Ddeddf sefydliad newydd i oruchwylio'r system hefyd – Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC). Daeth yr IPCC yn weithredol ar 1 Ebrill 2004.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r IPCC wedi bod yn gweithio gyda budd-ddeiliaid o'r gymuned a'r heddlu i gymryd stoc o'r system gwynion . Bwriad yr ymarfer oedd:

- gwirio pa mor dda y mae'r system yn gweithio o'i chymharu â'i nodau gwreiddiol
- gwirio bod y nodau gwreiddiol yn dal yn addas yn yr amgylchedd presennol
- gwella'r system ar sail yr hyn a ddysgwyd dros y pedair blynedd diwethaf o weithredu.

Arweiniodd y broses hon at set o gynigion ar gyfer parhau i wella'r system gwynion. Mae'r cynigion hyn hefyd yn ystyried newidiadau ehangach, gan gynnwys y diwygiadau i system ddisgyblaeth yr heddlu ac adolygiad diweddar Syr Ronnie Flanagan o blismona.

Yr hyn sydd ar y cyhoedd ei eisiau o system gwynion yr heddlu

Cynhaliodd cwmni ymchwil marchnad annibynnol arolwg ar ran yr IPCC, a ddynododd bod gan y cyhoedd farn gadarnhaol am yr IPCC:

- roedd cyfanswm o 64 y cant o'r rhai a arolygwyd wedi clywed am yr IPCC
- roedd 67 y cant yn meddwl y byddai'n ymdrin â chwynion yn ddiduedd
- roedd 88 y cant yn meddwl y byddent yn cael eu trin yn deg petaent yn cwyno wrth yr IPCC am unigolyn yn gweithio i'r heddlu.

Roedd yr arolwg hefyd yn dynodi, ym mhob achos ond y rhai mwyaf difrifol, yn hytrach na bod swyddog yn cael ei gosbi, bod y rhan fwyaf am gael esboniad, ymddiheuriad, neu gael sicrwydd y byddai'r gwersi priodol yn cael eu dysgu.

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl y byddent yn cysylltu â'u heddlu lleol i gwyno am swyddog neu aelod o staff, yn hytrach na chorff fel yr IPCC neu gyfreithiwr. Pryder cyffredin a fynegwyd gan yr ymatebwyr oedd na fyddai cwyno, er ei bod yn broses gymhleth a maith, yn gwneud unrhyw wahaniaeth. Teimlai pobl yn gryf y dylai'r IPCC ymchwilio i'r cwynion a'r digwyddiadau mwyaf difrifol yn annibynnol – ond roedd y farn wedi ei rhannu'n gyfartal a ddylai'r IPCC ymdrin â phob cwyn.

Mae tystiolaeth arall yn dynodi nad yw profiad gwirioneddol pobl o'r system yn cyfateb â'u disgwyliadau. Mae'r rhan fwyaf o gwynion yn cael eu trin gan yr heddlu eu hunain yn hytrach na'r IPCC, ond darganfu Arolwg Troseddu Prydain 2006/07 mai dim ond 20 y cant o'r bobl a oedd wedi cwyno oedd yn fodlon ar y ffordd yr oedd yr heddlu wedi ymdrin â'r gŵyn.

Yn yr un modd â gwasanaethau cyhoeddus eraill, mae disgwyliadau'r cyhoedd o'r heddlu wedi cynyddu ac mae pobl yn fwy parod i gwyno pan na fydd y disgwyliadau hynny yn cael eu cyrraedd. Mae'r categorïau o gwynion am swyddogion yr heddlu a staff sy'n cynyddu gyflymaf yn cynnwys diffyg cwrteisi ac esgeuluso dyletswydd – sydd yn ymwneud â'r ffordd y mae'r heddlu yn darparu gwasanaeth.

Y system gyfredol

Gwelodd y broses Cymryd Stoc nad yw system gwynion bresennol yr heddlu bob amser yn diwallu anghenion y cyhoedd, swyddogion yr heddlu ac aelodau o staff yr heddlu.

Dywedir am y system gyfredol:

- ei bod wedi ei dylunio i ddynodi ar bwy yr oedd y bai, nid edrych beth aeth o'i le a sut y dylid ei gywiro
- ei bod yn gallu bod yn fiwrocrataidd ac araf
- nad yw yn datrys digon o gwynion yn lleol.

Y ffordd y gellid gwella'r system

Mae'r broses Cymryd Stoc wedi dynodi ffyrdd y gall y system gwynion gael ei gwella i swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu a'r cyhoedd.

Gwelliant a gynigir	Sut y gellid gwneud y gwelliant
Ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ddeall beth y gallant gwyno amdano a sut i gwyno.	• Cael gwared â'r gwahaniaethau rhwng cwynion am ymddygiad swyddogion a methiannau yn y gwasanaeth.
Gwneud y broses gwynion yn fwy tryloyw a rhoi disgwyliad clir i'r cyhoedd o ran canlyniadau posibl eu cwyn ar ddechrau'r broses.	• Yr IPCC i ryddhau datganiad interim cynnar ar y cynnydd a wnaed ar ei ymchwiliadau annibynnol. • Ei gwneud yn glir y gall cwynion gael eu cadarnhau (h.y. eu bod yn deilwng) boed tystiolaeth o gamymddwyn neu berfformiad gwael gan swyddog unigol neu beidio.
Canolbwyntio'r system gwynion ar ddatrys y broblem yn hytrach na thadogi bai.	• Newid y broses asesu ac ymdrin i sicrhau mai datrys y gŵyn yw prif nod y broses. • Cydnabod y gall fod nifer o ganlyniadau addas i ddatrys cwyn: pennu y gall cwyn fod yn ddi-sail, rhoi esboniad am weithred gan yr heddlu, ymddiheuriad neu newid arferiad, profi ac ymdrin â honiadau o berfformiad gwael gan unigolion neu gamymddwyn/gweithredoedd troseddol.
Sicrhau bod cwynion yn cael eu trin gan y rhai sydd yn y sefyllfa orau i wneud pethau'n iawn.	• Gallai pob cwyn gael ei thrin ar y lefel reoli isaf priodol. • Gall llwybr uniongyrchol at yr IPCC barhau ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol.
Sicrhau bod y rhai sy'n ymdrin â chwynion yn cael eu hymddiried ynddynt a'u cefnogi wrth wneud hynny ac yn cael rhyddid i ddatrys cwynion yn y ffordd fwyaf effeithiol.	• Cael gwared â biwrocratiaeth ddiangen o'r system trwy adolygu'r prosesau cwyno uniongyrchol, apelio, trwyddedu, peidio parhau, ceisio am ddatrysiad lleol, atgyfeirio a thynnu yn ôl.
Gwarchod hyder y cyhoedd yn y system ymdrin â chwynion; a sicrhau bod systemau yn eu lle i ymdrin ag achlysuron pan na fydd cwynion yn cael eu datrys yn briodol.	• Cynyddu rôl oruchwyliol yr IPCC a datblygu agwedd wedi ei strwythuro ymhellach tuag at y ffordd y mae'r IPCC yn goruchwylio'r system gwynion gyfan. • Datblygu proses ar gyfer apelio at yr IPCC sy'n symlach i'r heddluoedd a'r achwynwyr. • Galluogi heddluoedd i adolygu eu penderfyniadau, a phan fydd hynny'n addas, newid eu hymateb i gŵyn cyn i'r mater gael ei godi i sylw'r IPCC; dysgu o brofiad pan na fydd pethau'n mynd yn iawn. • Darparu ffyrdd mwy ystyrlon o annog gwelliant.

Y ffordd y byddwn yn cyflawni'r newidiadau

- Rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori yn ehangach ar y cynigion – gweler isod i weld sut i gael dweud eich dweud.
- Gall rhai o'r argymhellion gael eu gweithredu yn yr IPCC ar unwaith, fel ein bod yn medru gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.
- Mae newidiadau eraill yn cael effaith ar system gwynion gyfan yr heddlu. Bydd yr IPCC yn gweithio gyda'r heddlu a budd-ddeiliaid eraill i ddatblygu, profi a gweithredu'r newidiadau hyn. Bydd llawer o'r newidiadau yn digwydd fel rhan o adolygiad sydd ar fin ei gyflawni o Gyfarwyddyd Statudol yr IPCC i'r system gwynion, a thrwy ddatblygu Fframwaith Perfformiad ar gyfer y system.
- Mae'r newidiadau eraill yn fwy cymhleth ac efallai y bydd gofyn am newid deddfwriaeth, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion. Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a'r Swyddfa Gartref i ystyried y rhain.

Dweud eich dweud

Mae copi llawn o'n dogfen ymgynghorol – *Adeiladu ar brofiad – cymryd stoc o system gwynion newydd yr heddlu ar ôl pedair blynedd o brofiad gweithredol* ar gael ar wefan yr IPCC yn www.ipcc.gov.uk/consultation. Mae'r ddogfen yn esbonio sut y gallwch roi eich barn am y newidiadau i system gwynion yr heddlu.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad trwy anfon e-bost at stocktake@ipcc.gsi.gov.uk neu trwy ysgrifennu at:
IPCC Stock Take Consultation, 90 High Holborn, London WC1V 6BH

Independent Police
Complaints Commission
90 High Holborn
London
WC1V 6BH

www.ipcc.gov.uk
Ffôn: 08453 002 002
Ebost: enquiries@ipcc.gsi.gov.uk

Mehefin 2008
Cyfeirnod COM36